
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Adroddiad Blynyddol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2018/19

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 3
2. Cefndir .......... 3
3. Casglu a monitro data .......... 3
3.1 Data Staff .......... 4
3.1.1 Rhywedd .......... 8
3.1.2 Oedran .......... 8
3.1.3 Ethnigrwydd .......... 10
3.1.4 Anabledd .......... 11
3.1.5 Crefydd a Chred .......... 12
3.1.6 Cyfeiriadedd Rhywiol .......... 12
3.1.9 Annog datgelu .......... 12
3.2 Data myfyrwyr .......... 13
3.2.1 Proffil myfyrwyr cyffredinol .......... 13
3.2.2 Rhywedd .......... 15
3.2.3 Oedran .......... 17
3.2.4 Ethnigrwydd .......... 21
3.2.5 Anabledd .......... 23
3.2.6 Crefydd / Cred .......... 28
3.2.7 Cyfeiriadedd Rhywiol .......... 28

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn rhan o Grŵp Y Drindod Dewi Sant (y Grŵp), menter gydweithredol amlsefydliadol sy'n eiddo i'r Brifysgol ac a lywodraethir ganddi, gyda Choleg Sir Gâr (CSG) a Choleg Ceredigion (CC) yn golegau cyfansoddol. Mae gan y Grŵp gampysau yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llundain ac Abertawe, ac mae gan bob un ei hunaniaeth ei hun. Hefyd mae gan y Grŵp ganolfan ddysgu yn Birmingham, lleoliadau yng Nghaerdydd a chanolfannau cymunedol allgymorth ledled De Cymru, sy'n helpu i wireddu ein ffocws strategol ar ehangu cyfranogiad. Cynigir darpariaeth AU ac AB mewn nifer o leoliadau eraill yn Ne a Gorllewin Cymru trwy'r colegau cyfansoddol a phartner.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i adeiladu cymunedau cryf ar bob safle ac i greu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol lle gall yr holl staff, myfyrwyr a dysgwyr ffynnu a chyflawni eu potensial personol. Rydym yn gweithio'n ddiwyd ar ddileu rhwystrau rhag cyfranogi ac yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Ein pum amcan allweddol ar gyfer 2020-2024 yw:

- Deall yn well anghenion ein cymunedau a deall y rhwystrau maent yn eu hwynebu er mwyn ffynnu
- Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn ein cymunedau
- Hyrwyddo cymunedau diogel
- Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Creu cymunedau dysgu iach a chynhwysol

## 2. Cefndir

Roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Grŵp a luniwyd gan y Brifysgol yn cwmpasu'r cyfnod 2016 – 2020. Roedd yn cynnwys ein partneriaid sector deuol ac yn sail i'n hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a nodi rhwystrau rhag cyfranogi, a mynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Brifysgol wedi ymgynghori'n helaeth â staff, myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid allanol i ddatblygu ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Mae adroddiad ymgynghori wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rôl bwysig yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

Gan mai 2018/19 oedd blwyddyn gyflawn olaf CCS 2015-2020, aeth y Brifysgol ati i asesu perfformiad yn erbyn y cynllun. Roedd yr asesiad hwn yn ffurfio rhan allweddol o ddatblygu'r CCS newydd ar gyfer 2020-2024. Dangosodd yr asesiad a gynhaliwyd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at CCS 2015-2020 a bod amcanion newydd a nodwyd wedi'u hymgorffori yng nghynllun 2020-2024.

## 3. Casglu a monitro data

Mae'r Drindod Dewi Sant yn coladu ac yn monitro data o'r ffynonellau mewnol ac allanol canlynol:

- System cofnodion Adnoddau Dynol y Brifysgol

- Systemau Cofnodion Myfyrwyr y Brifysgol
- Data sefydliadol staff a myfyrwyr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) (a gafwyd drwy Heidi Plus, porth dadansoddi data).

Defnyddir data i:

- asesu defnyddioldeb ac effaith ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig;
- nodi tueddiadau o fewn ein poblogaethau staff a dysgwyr / myfyrwyr o ran nodweddion gwarchodedig;
- nodi ac amlygu unrhyw rwystrau parhaus a/neu feysydd o dangynrychiolaeth neu anghydraddoldeb;
- asesu ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb a gwirio i weld a oes angen diweddaru neu ddiwygio'r rhain;
- nodi blaenoriaethau i'w gweithredu ar gyfer y dyfodol.

## 3.1 Data Staff

Mae'r data staff yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn 2018/19 neu mewn rhai achosion, y data a gedwir ar y systemau AD mewnol. Mae data HESA yn cael eu talgrynnu at ddibenion diogelu data.


Er mwyn darparu cyd-destun, mae data staff y Brifysgol wedi'u cymharu â gwybodaeth y sector Addysg Uwch sydd ar gael yn Heidi Plus.

Mae'r data staff yn yr adroddiad hwn yn cynnwys staff y Drindod Dewi Sant (YDDS) a'r tua 100 aelod o staff CSG sy'n addysgu ar raglenni astudio AU.


Yn 2018/19 roedd y Drindod Dewi Sant yn cyflogi cyfanswm o 1,515 o staff, 50% ohonynt yn staff academaidd a 50% yn staff anacademaidd.


Cyflogir 80% o staff y Drindod Dewi Sant ar gontract penagored / parhaol o'i gymharu ag 20% ar gontract cyfnod penodol. Mae hyn yn gynnydd o 8% yng nghyfran y staff sydd ar gontract cyfnod penodol o'i gymharu â chanlyniad 2017/18, gyda gostyngiad cysylltiedig yng nghyfran y staff sydd ar gontract penagored / parhaol.

O gymharu â data cenedlaethol y DU a ddarperir yn Heidi Plus, mae gan y Drindod Dewi Sant gyfran uwch o staff a gyflogir ar gontractau penagored/parhaol (80% ~ 75.7%). Mae gan y Drindod Dewi Sant gyfran uwch o staff academaidd a gyflogir ar gontractau penagored / parhaol o gymharu â ffigur y DU (70.8% ~ 66.5%).




TABL STF-2; Ffynhonnell: HESA





TABL STF-3 a THABL STF-4; Ffynhonnell: HESA


### Patrwm Cyflogaeth

Patrwm cyflogaeth staff y Drindod Dewi Sant, yn ôl cyfran, yw 52.9% yn staff amser llawn a 47.1% yn staff rhan amser. Mae canrannau 2018/19 yn debyg iawn i ganrannau 2017/18. Mewn cymhariaeth, y ffigur ar gyfer y DU yw 67.3% amser llawn a 32.7% rhan amser.




TABL STF-5; Ffynhonnell: HESA

Mae proffil rhywedd y staff yn ôl patrwm cyflogaeth yn dangos bod 62.4% o'r staff gwrywaidd yn amser llawn a 45.8% o'r staff benywaidd yn amser llawn. Mae hyn yn is na ffigurau'r DU sef 76.4% o'r staff gwrywaidd mewn cyflogaeth amser llawn a 59.8% o fenywod mewn cyflogaeth amser llawn.





TABL STF-6; Ffynhonnell: HESA

## Cyflog


Mae'r dadansoddiad o staff y Drindod Dewi Sant yn seiliedig ar ystod cyflog contract[1] yn 2018/19 yn dangos patrwm tebyg i ffigurau 2017/18, lle ceir y nifer uchaf o bobl yn ystod cyflog 4, sef 41% o'r holl staff.

---

1 *Mae'r cyflog yn seiliedig ar gyflog contract aelodau staff mewn darparwr AU, lle bo hynny'n berthnasol, ar 31 Gorffennaf yn y cyfnod adrodd, neu ddyddiad gorffen y contract os yw'n gynharach.*





TABL STF-7; Ffynhonnell: HESA




TABL STF-8; Ffynhonnell: HESA

---


*At ddibenion dadansoddi mae'r cyflogau contract wedi'u grwpio'n chwe ystod cyflog, ac mae gwaelod a brig pob ystod yn cyd-fynd â phwyntiau'r golofn gyflogau a ddefnyddir yng Ngholofn Gyflogau JNCHES (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel y Golofn Gyflogau Derfynol), fel y'i nodir yn nogfen HESA ar y golofn gyflogau sengl a leolir yn https://www.hesa.ac.uk/collection/c16025 (colofn Cyflog o 1 Awst 2016).*




TABL STF-9; Ffynhonnell: HESA

### 3.1.1 Rhywedd

Yn 2018/19 mae'r dadansoddiad o ran rhywedd staff y Drindod Dewi Sant yn 57.3% o fenywod a 42.7% o ddynion, sy'n unol â chanlyniadau'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae proffil rhywedd cyffredinol y Drindod Dewi Sant yn fras yn unol â phroffil cyffredinol staff sy'n gweithio mewn addysg uwch yn y DU (54.6% yn fenywaidd a 45.4% yn wrywaidd) ac yng Nghymru (55% yn fenywaidd a 45% yn wrywaidd). Mae cyfran y staff academaidd benywaidd o'u cymharu â'r staff academaidd gwrywaidd yn y Drindod Dewi Sant yn 54.6% yn fenywaidd a 45.4% yn wrywaidd, sy'n uwch na ffigur y DU sef 46.2% a 53.7% yn eu tro.





TABL STF-10; Ffynhonnell: HESA


### 3.1.2 Oedran

Mae proffil oedran y staff yn 2018/19 yn cymharu'n fras â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae canran y staff yn y categorïau 51 oed a throsodd wedi cynyddu o 37% yn 2016/17 i 38% yn 2017/18 a 38.9% yn 2018/19. Mae cyfran staff y Drindod Dewi Sant yn y categorïau 51 oed a throsodd yn uwch na ffigur y DU o 29.8% a ffigur Cymru o 30.7%. Ymhlith y staff academaidd


mae'r gyfran yn y categorïau 51 oed a throsodd yn 46.2% o'i gymharu â ffigur y DU o 30.9%. Canran y staff o dan 30 oed yw 13%, sy'n cyfateb yn fras i ffigur Cymru o 14.3% a ffigur y DU o 16.8%.




TABL STF-11; Ffynhonnell: HESA





TABL STF-12; Ffynhonnell: HESA





TABL STF-13; Ffynhonnell: HESA

### 3.1.3 Ethnigrwydd


Yn 2018/19 datganodd 93.9% o staff y Drindod Dewi Sant eu hethnigrwydd. O'r 93.9% a ddatganodd hyn, datganodd 93.4% mai 'gwyn' yw eu hethnigrwydd. Y canrannau ar gyfer staff academaidd ac anacademaidd yw 91.3% a 95.4% yn eu tro.




TABL STF-14; Ffynhonnell: HESA




TABL STF-15; Ffynhonnell: HESA



TABL STF-16; Ffynhonnell: HESA

### 3.1.4 Anabledd

Yn 2018/19 datganodd 95 o aelodau staff y Drindod Dewi Sant fod ganddynt anabledd, sef 6.2% o gyfanswm y staff. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Cyfran y staff academaidd ac anacademaidd yn eu tro yw 5.6% a 6.9%. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb yn fras i ffigur cyffredinol y DU o 5.3% a 6.1% o staff yng Nghymru sy'n datgan bod ganddynt anabledd.



TABL STF-17; Ffynhonnell: HESA

### 3.1.5 Crefydd a Chred

Ni fu'n bosibl cynnwys data staff ar Grefydd a Chred.

### 3.1.6 Cyfeiriadedd Rhywiol

Ni fu'n bosibl cynnwys data staff ar Gyfeiriadedd Rhywiol.

### 3.1.9 Annog datgelu

Ar ddechrau Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2015-20, gweithredwyd y modwl hunanwasanaeth ar gyfer y system AD/cyflogres yn y Drindod Dewi Sant yn achos y rhan fwyaf o'r staff. Mae hyn yn caniatáu i'r staff weld a diweddaru eu gwybodaeth bersonol eu hunain gan gynnwys nodweddion gwarchodedig ac eithrio anabledd a beichiogrwydd. Buddsoddwyd ymdrech sylweddol dros gyfnod y Cynllun i ddarparu sesiynau hyfforddi ar gyfer staff er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r system hunan wasanaeth i ddiweddaru gwybodaeth bersonol. Ar yr un pryd, mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd monitro data er mwyn annog staff i rannu gwybodaeth sensitif. Cafwyd lefelau datgelu gwell ar gyfer 2018/19 o ran ethnigrwydd lle mae canran y staff sy'n datgan eu hethnigrwydd wedi codi o 85% yn 2016/17 i 93.9% yn 2018/19.

## 3.2 Data myfyrwyr

Mae'r data a roddir yn yr adran hon yn ymwneud â myfyrwyr AU sy'n astudio yng Ngrŵp y Drindod Dewi Sant a myfyrwyr AU mewn sefydliadau partner AB breiniol. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr AU sy'n astudio mewn partneriaethau cydweithredol. Ac eithrio'r data ceisiadau sy'n dod o'n warws data, adroddwyd ar yr holl ddata eraill i HESA.[2] Mae data HESA yn cael eu talgrynnu at ddibenion diogelu data. Mae'r holl ddata wedi eu meincnodi ar gyfer y sector, trwy ddefnyddio data Heidi Plus. Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad ystadegol ar gydraddoldeb yn ystyried yn gyntaf broffil cyffredinol myfyrwyr oddi mewn i Grŵp y Drindod Dewi Sant ac wedyn yn canolbwyntio ar dderbyn a chyrhaeddiad myfyrwyr sydd â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Rhywedd
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd

Gwneir cymhariaeth â data 2017/18 pan fo'n bosibl ac yn briodol. Mae rhan olaf y data ystadegol ynghylch myfyrwyr yn adrodd ar ddata sy'n ymwneud â chrefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol.


Nid yw'r Drindod Dewi Sant yn cadw data myfyrwyr ynghylch beichiogrwydd na mamolaeth, na phriodas na phartneriaeth sifil ar ei system cofnodion myfyrwyr ac nid yw'r nodweddion gwarchodedig hyn, felly, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ystadegol hwn ar gydraddoldeb. Anfonir data myfyrwyr i HESA ynghylch ailbennu rhywedd. Am fod y niferoedd cyffredinol yn fach, er mwyn diogelu data, ni wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r data yn yr adroddiad ystadegol hwn.

Yn rhan o'r amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio i annog myfyrwyr i ddatgelu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig.

### 3.2.1 Proffil myfyrwyr cyffredinol


Rhwng 2017/18 a 2018/19, cododd nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio yn y Drindod Dewi Sant 855 i 11,135 o fyfyrwyr.
O gymharu â data cenedlaethol, mae gan y Drindod Dewi Sant gyfran lawer uwch o fyfyrwyr israddedig sy'n astudio ar gyfer rhaglenni astudio Israddedig Eraill (39.3% ~ 6.3%) a chanran lai sy'n astudio ar gyfer rhaglenni israddedig Graddau Cyntaf (55.5% ~ 91.9%). Mae Tabl STU-1 yn adlewyrchu'r symudiad parhaus hwn tuag at Raglenni Astudio Israddedig Eraill. Mae hyn yn unol â chenhadaeth y Drindod Dewi Sant i ehangu cyfleoedd cyfranogiad a mynediad i Addysg Uwch.

2 Ac eithrio data crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol, mae'r holl ddata'n deillio o Heidi Plus.





TABL STU-1 Ffynhonnell: HESA

Nodir y proffil myfyrwyr yn ôl dull astudio yn Nhabl STU-2. Mae'r duedd o weld gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhan amser a gofrestrir wedi parhau, gyda phob lefel astudio yn profi newid tuag at fyfyrwyr yn astudio ar gwrs amser llawn yn hytrach na chwrs rhan amser. O gymharu â ffigurau cenedlaethol, cadarnheir hefyd fod ein proffil yn wahanol i'r sector: Mae myfyrwyr Graddau Cyntaf a myfyrwyr Israddedig Eraill yn arbennig, er enghraifft, yn fwy tebygol o fod yn amser llawn (+3.4% a 54% yn eu tro).




TABL STU-2 Ffynhonnell: HESA

Nodir proffil cyffredinol canlyniadau myfyrwyr Graddau Cyntaf Israddedig yn nhabl STU-3. Mae'r tabl hwn yn dangos bod canran gyffredinol graddau Anrhydedd Da (Cyntaf/2:1) wedi codi o 73% yn 2017/18 i 73.5% yn 2018/19. Gostyngodd canrannau'r myfyrwyr a gafodd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is ac Anrhydedd Trydydd Dosbarth / Llwyddo ychydig.





a
TABL STU-3 Ffynhonnell: HESA

Mae canran y graddau Anrhydedd Da ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (+0.6%). Mae nifer y graddau Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 27.3%, ond yn unol â phroffil oedran y Drindod Dewi Sant (gweler adran 3.2.3). Mae canran y graddau Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch yn is na chyfartaledd Cymru (43.5% ~ 45.6%); mae canran y graddau ail ddosbarth is yn uwch na chyfartaledd Cymru (21.8% ~ 20.3%), a chanran canlyniadau anrhydedd trydydd dosbarth/llwyddo yn unol â chyfartaledd Cymru.


### 3.2.2 Rhywedd

Mae Tabl STU-4 yn nodi'r ceisiadau fesul rhyw.





TABL STU-4 Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran ceisiadau'n adlewyrchu proffil rhywedd cyffredinol y sefydliad fel y'i dangosir gan dabl STU-5. At ei gilydd, mae proffil rhywedd y Drindod Dewi Sant wedi bod yn sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd academaidd diwethaf. Mae proffil rhywedd y Drindod Dewi Sant yn unol â ffigurau cyfartalog Cymru (myfyrwyr gwrywaidd: 43.2% ~ 43.6%; myfyrwyr benywaidd: 56.7% ~ 56.3%) a'r cyfartaledd cenedlaethol yn y DU (57.1% - myfyrwyr benywaidd a 42.7% myfyrwyr gwrywaidd). Mae'r Athrofeydd a'r Adran Farchnata'n cydweithio'n agos i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd o ran y myfyrwyr a dderbynnir ar gyfer meysydd pwnc penodol.




TABL STU-5 Ffynhonnell: HESA


Mae Tabl STU-6 yn dangos y math o radd fesul rhyw. Mae'r canrannau'n weddol debyg ac nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y mathau o raddau a astudir gan fyfyrwyr benywaidd neu wrywaidd.




`


TABLE STU-6 Ffynhonnell: HESA

Yn yr un modd, fel y dangosir gan dabl STU-7, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canrannau myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n astudio yn ôl dull amser llawn neu ran-amser. Mae'r canrannau rhan amser ychydig yn uwch yn y Drindod Dewi Sant ar gyfer myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd o'u cymharu â chyfartaledd cyffredinol y DU. E.e. benywaidd rhan amser: 22.5% ~ 22.2% a gwrywaidd rhan amser: 20.8% ~ 19.4%. Mae hyn yn adlewyrchu pwyslais y Drindod Dewi Sant ar ehangu mynediad a'r oedran cyfartalog wrth ddechrau (gweler adran 3.2.3). Yn achos myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd yn y Drindod Dewi Sant, mae'r dull astudio amser llawn wedi cynyddu (o 78% yn 2017/18 i 79.2% yn 2018/19 i fyfyrwyr gwrywaidd ac o 74.1% (2016/17) i 77.5% (2018/19) i fyfyrwyr benywaidd. Mae hyn yn cadarnhau'r duedd gyffredinol tuag at astudio amser llawn.




TABL STU-7 Ffynhonnell: HESA

Mae Tabl STU-8 yn ystyried proffil rhywedd canlyniadau gradd yn 2018/19. Dengys y data, yn yr un modd â 2017/18, fod myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o sicrhau graddau Anrhydedd Da na myfyrwyr gwrywaidd ac yn llai tebygol o gael canlyniadau gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is, Trydydd a Llwyddo. O'u cymharu â ffigurau cyfartalog y DU, mae canlyniadau Anrhydedd Da i fyfyrwyr benywaidd yn uwch na ffigurau cyfartalog y DU a Chymru. Cyfartaledd y Drindod Dewi Sant: 78.1%; cyfartaledd Cymru: 75.5%, cyfartaledd y DU: 74.7%. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, ar gyfer myfyrwyr gwrywaidd, mae'r canlyniadau'n is na chyfartaleddau Cymru a'r DU. YDDS: 67.4%, cyfartaledd Cymru: 69.8%, cyfartaledd y DU: 70.1%





TABL STU-8 Ffynhonnell: HESA

Ystyrir canlyniadau cyrhaeddiad fesul rhywedd ac ethnigrwydd yn adran 3.2.4.

### 3.2.3 Oedran


Mae'r data yn yr adran hon yn cyfeirio at oedran myfyrwyr ar ddyddiad cychwyn eu hastudiaethau. Sylwer nad yw'r grwpiau data a ddarparwyd gan Heidi Plus yn cyfateb yn llawn i'r grwpiau oedran a ddefnyddir gan ECU yn ei Students Statistical Report 2019.

Mae Tabl STU-9 yn dangos y ceisiadau yn ôl oedran ar gyfer 2018/19. O gymharu'r tabl hwn â thabl STU-10, sy'n rhoi'r proffil oedran cyffredinol ar gyfer y sefydliad, mae'n glir bod nifer yr ymgeiswyr yn ôl oedran yn adlewyrchu'r niferoedd cofrestru.





TABL STU-9. Ffynhonnell: ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-10 yn dangos bod 78% o holl fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant yn 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu hastudiaethau, sef cynnydd o 3% er 2017/18. Mae'n broffil gwahanol iawn i broffil oedran cyfartalog y sector yng Nghymru a'r DU, gyda chanran sylweddol is o dan 21 oed (62.3% [Cymru] a 59.3 [DU]) adeg dechrau ar eu hastudiaethau a chanrannau sylweddol uwch dros 39 oed (y Drindod Dewi Sant > 39: 21%, Cymru > 39: 11.9%, DU >39: 8.8%). Mae pwyslais cryf y Drindod Dewi Sant ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, uwchsgilio a dysgu gydol oes yn esbonio'r proffil oedran hwn.





TABL STU-10. Ffynhonnell: HESA

Mae Tabl STU-11 yn dangos bod proffil oedran yr holl fyfyrwyr israddedig yn dangos dosbarthiad oedran tebyg iawn i broffil oedran cyffredinol y Drindod Dewi Sant.





TABL STU-11. Ffynhonnell: HESA

Nodir y berthynas rhwng oedran a dull astudio yn nhabl STU-12 isod. Mae gan bob grŵp oedran yn YDDS nifer fwy o fyfyrwyr amser llawn, ac eithrio'r grŵp oedran 17 ac iau a 60 a throsodd. Mae cyfran y myfyrwyr rhan amser yn cynyddu gydag oedran.




TABL STU-12. Ffynhonnell: HESA


Nodir proffil oedran canlyniadau Graddau Cyntaf yn nhabl STU-13. Mae'r data i fyfyrwyr 30 oed a throsodd yn rhoi canlyniad mwy cadarnhaol na chanfyddiadau ledled y DU: yn genedlaethol, mae gan fyfyrwyr aeddfed gyfraddau uwch o ran cael dosbarth gradd is na 2:1. Oddi mewn i Gymru, y cyfartaledd yw 69%. Yn y Drindod Dewi Sant, mae 79.4% o fyfyrwyr 30 oed a throsodd yn cael gradd anrhydedd dda o gymharu â 61% ar draws y DU a 69.4% yng Nghymru. Mae data'r Drindod Dewi Sant yn dangos, yn achos myfyrwyr 30-39 oed wrth ddechrau, fod 79.7% yn cael anrhydedd dda, yn achos myfyrwyr 40-49 oed wrth ddechrau, mae'n 77.2%, ac yn achos myfyrwyr 50-59 oed mae'n 90.9%.




TABL STU-13. Ffynhonnell: HESA


### 3.2.4 Ethnigrwydd

Sylwer bod y prif gategorïau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU; mae myfyrwyr nad ydynt yn hanu o'r DU wedi eu cynnwys yn y categori Anhysbys/ Amherthnasol. Mae modd i fyfyrwyr beidio â datguddio eu hethnigrwydd a cheir data'r myfyrwyr hynny hefyd yn y categorïau 'anhysbys' / 'amherthnasol'. Mae cyfran fwy o fyfyrwyr Gwyn yn gwneud cais i'r Drindod Dewi Sant o gymharu â'r gyfran o fyfyrwyr Gwyn sy'n cofrestru yn y Brifysgol. Mae gostyngiad yng nghyfran y myfyrwyr Asiaidd sy'n gwneud cais (24%) ac sy'n cofrestru (11.6%).




TABL STU-14. Ffynhonnell: Ffyonellau Mewnol

Gwelir proffil ethnigrwydd cyffredinol y Drindod Dewi Sant yn nhabl SRU-15.





TABL STU-15. Ffynhonnell: HESA

Mae'r data'n dangos bod y Drindod Dewi Sant wedi mynd yn fwy amrywiol dros y tair blynedd academaidd ddiwethaf. Gwelwyd gostyngiad yn y myfyrwyr yn y categori gwyn o 80.3% yn 2016/17 i 73.9% yn 2017/18 a 71.2% yn 2018/19. Ar yr un pryd, gwelwyd gostyngiad o 9.8% i 7.8% yn y categori 'anhysbys / amherthnasol'.Aeth cyfanswm y Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) o 9.9% yn 2016/17, i 18.4% yn 2017/18, i 20.9% yn 2018/19 Mae'r cyfanswm BME yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n 10%, ac mae hefyd yn uwch na chyfartaledd cyffredinol y DU sef 19%. Mae'r cynnydd clir yn


niferoedd myfyrwyr BME yn ganlyniad i ddull strategol gyda ffocws ar ddarparu mynediad i astudiaeth AU ar gyfer cymunedau 'anodd eu cyrraedd' trwy ddatblygu nifer o raglenni astudio TystAU sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth.

Gellir rhoi tystiolaeth o ganlyniadau'r dull strategol hwn hefyd wrth ystyried y data ynghylch y math o radd a astudir yn ôl ethnigrwydd (gweler tabl STU-16 a chanrannau'r myfyrwyr o gefndiroedd BME sydd wedi eu cofrestru ar raglenni astudio 'Israddedig Eraill').





TABL STU-16. Ffynhonnell: HESA

Mae Tablau STU-17 a 18 yn nodi'r canlyniadau gradd yn ôl ethnigrwydd a'r canlyniadau gradd yn ôl ethnigrwydd a rhywedd. Gellir esbonio'r mân wahaniaeth rhwng y ddau dabl ar sail y strategaeth dalgrynnu a ddefnyddir gan HESA at ddibenion diogelu data. Mae ffigurau cyfartalog graddau Anrhydedd Da ar gyfer pobl dduon (70.9%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (55.4%) a'r DU (57%); mae ffigurau cyfartalog graddau Anrhydedd Da ar gyfer pobl Asiaidd yn isel (50%) o'u cymharu â ffigurau cyfartalog Cymru (63.5%) a'r DU (65.9%). Mae canlyniadau Anrhydedd Da ar gyfer pobl wyn yn is (74.9%) na chyfartaledd y DU (76.8%) ac yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru (76.6%). Mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth niferoedd isel y myfyrwyr BME ar Raddau Cyntaf. Yn ystadegol, mae hyn yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau cadarn. Fodd bynnag, wrth i niferoedd BME gynyddu, caiff perfformiad yn y maes hwn ei fonitro'n agos.




TABL STU-17. Ffynhonnell HESA



TABL STU-18. Ffynhonnell: HESA


### 3.2.5 Anabledd

Mae'r data ymgeisio ar gyfer myfyrwyr sydd wedi datgan anabledd yn dangos bod 11.7% o fyfyrwyr yn datgan anabledd yn rhan o'r broses ymgeisio, ychydig yn uwch na'r gyfran a wnaeth yn 2016/17 (10.3%). Mae canran yr anableddau datganedig yn cynyddu i 16.8% yn achos myfyrwyr cofrestredig (gweler tablau STU20 a 21).





TABL STU-19. Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-20 yn rhoi manylion yr anableddau / cyflyrau / namau sy'n cael eu datgan yn rhan o'r camau ymgeisio.





TABL STU-20. Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-21 yn dangos bod gan 16.8% o'r holl fyfyrwyr anabledd datganedig. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 13.9% a chyfartaledd Cymru o 14.9%. Roedd gan 23.1% o fyfyrwyr israddedig amser llawn Graddau Cyntaf anabledd datganedig, ffigur sy'n uwch na ffigurau cenedlaethol cyfartalog.





TABL STU-21 Ffynhonnell HESA

Mae Tabl STU-22 yn rhoi manylion y mathau o nam ar gyfer y 16.8% o fyfyrwyr sydd ag anabledd datganedig. Yn unol ag ystadegau cenedlaethol, anhawster dysgu penodol yw'r anabledd datganedig mwyaf cyffredin. Mae 47.9% o'r Drindod Dewi Sant wedi datgan anhawster dysgu penodol, o'u cymharu â 35.7% yn y DU a 38.1% yng Nghymru. Daw datganiad o gyflwr iechyd meddwl yn ail (18.6%), yn unol ag ystadegau cenedlaethol, a dau gyflwr neu ragor yn drydydd (10%).





TABL STU-22. Ffynhonnell HESA

Yn Nhabl STU-23 rhoddir manylion y mathau o raddau a astudir gan fyfyrwyr sydd ag anabledd datganedig. Defnyddir y data anabledd datganedig yn ôl pwnc yn y sefydliad i dargedu a chanolbwyntio cymorth.





TABL STU-23. Ffynhonnell: HESA

Mae myfyrwyr ag anabledd yn fwy tebygol o astudio'n amser llawn yn hytrach na rhan amser. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod myfyrwyr ag anabledd yn fwy tebygol o fod yn fyfyrwyr <21 oed adeg dechrau.





TABL STU-24. Ffynhonnell: HESA

O ran cyrhaeddiad (gweler tabl STU-25), mae 73.1% o'r myfyrwyr heb anabledd hysbys yn cael gradd Anrhydedd Dda, sydd yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol o 73% a chyfartaledd Cymru o 73.4%. Caiff 74.7% o'r myfyrwyr sydd ag anabledd radd Anrhydedd Dda sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 71.5%, yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru sef 70.5%. Yn yr un modd, dim ond 3.4% o fyfyrwyr anabl sy'n cael gradd Trydydd Dosbarth neu Lwyddo, o'u cymharu â 5.1% o'r myfyrwyr heb anabledd hysbys.




TABL STU-25. Ffynhonnell: HESA


Mae cyfraddau Anrhydedd Da, fodd bynnag, yn gwahaniaethu yn ôl statws yr anabledd fel y nodir yn nhabl STU-26. Oherwydd y niferoedd isel sy'n gysylltiedig ag anableddau penodol, byddwch yn ymwybodol yn y tabl hwn o strategaeth dalgrynnu HESA am resymau diogelu data. Yn achos myfyrwyr ag anhawster dysgu penodol caiff 72.8% radd Anrhydedd Dda, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 70.4%. Yn achos myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl, cafodd 75% ganlyniad o'r fath, sef 1.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.




TABL STU-26. Ffynhonnell HESA

### 3.2.6 Crefydd / Cred


Mae'r ffigurau ar gyfer myfyrwyr sy'n datgan eu bod yn ddi-grefydd wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2016/17, roedd yn 36.5%, yna cynyddodd i 45.2% ar gyfer 2017/18 ac mae'n 42% yn 2018/19 (gweler tabl STU-27). Gostyngodd canran y myfyrwyr a ddewisodd wrthod rhoi gwybodaeth o'r fath 5.7% i 7%. Ar gyfer sylwadau ynghylch datgelu data, gweler adran 3.2. Mae canran y myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn Gristnogion wedi aros yr un fath er 2017/18 gyda chyfran y myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn Fwslimiaid wedi cynyddu o 11.5% i 14%.




TABL STU-27. Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

### 3.2.7 Cyfeiriadedd Rhywiol

Nododd 78.2% o'r myfyrwyr mai heterorywiol yw eu cyfeiriadedd rhywiol, sy'n ostyngiad o 3% o'i gymharu â 2017/18. Mae cyfraddau datgelu wedi gostwng o 11.6% yn gwrthod gwybodaeth yn 2017/18 i 14.4% yn 2018/19.




TABL STU-28. Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol